# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025

## Cynllun Adnau

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a Chydraddoldeb Plant





www.cdllcaerdydd.co.uk

02920 872087

CDL@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cyngor Caerdydd
# Asesiad Effaith Sengl

## 1. Manylion y Cynnig

| **Beth yw'r cynnig?** | |
|---|---|
| Teitl: | Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd |

| **Ai cynnig newydd yw hwn neu a ydych chi'n diwygio polisi, strategaeth, prosiect, gweithdrefn neu wasanaeth sy'n bod eisoes?** | |
|---|---|
| Newydd | ☒ |
| Presennol | ☐ |

| **Cyfarwyddiaeth / Gwasanaeth:** |
|---|
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

| **Pwy sy'n datblygu'r cynnig?** | |
|---|---|
| Enw: | Stuart Williams |
| Teitl Swydd: | Arweinydd Grŵp (Polisi) |

| **Swyddog Arweiniol Cyfrifol (Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol):** |
|---|
| Andrew Gregory |

| **Portffolio'r Cabinet:** |
|---|
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

*Gellir cryfhau'r Asesiad Effaith Sengl (AES) wrth i amser fynd yn ei flaen, gan helpu i lunio'r cynnig. Bydd rheoli fersiynau yn cynnig trywydd archwilio defnyddiol ar sut mae'r AES wedi datblygu. Dylid cadw fersiynau drafft o'r asesiad ar gyfer cyflawnrwydd, ond dim ond y fersiwn derfynol fydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir darparu fersiynau drafft i reoleiddwyr os yw'n briodol.*

| Fersiwn | Awdur | Teitl Swydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Stuart Williams | Arweinydd Grŵp (Polisi) | 29/11/2024 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 2. Trosolwg o'r Cynnig

| **Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu hystyried a pham?**<br>*Rhowch amlinelliad o'r cynnig.* |
|---|
| Mae'r ddogfen yn nodi fframwaith defnydd tir strategol lefel uchel ar gyfer twf a datblygiad Caerdydd yn y dyfodol hyd at 2036, gan ymateb i anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'n cynnwys polisïau manwl a strategol yn ymwneud ag ystod o bynciau gan gynnwys:<br><br>• Lefel y Twf (Cartrefi a Swyddi) a dyraniadau<br>• Cynnal Twf a Gwydnwch Economaidd<br>• Ymateb i anghenion cymdeithasol (gan gynnwys Tai Fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr)<br>• Cyfleusterau a Diogelwch Cymunedol<br>• Manwerthu ac Economi'r Nos<br>• Cefn Gwlad, lletem Las, Gwarchod y Dirwedd a Dyffrynnoedd Afonydd<br>• Uwchgynllunio, Creu Lleoedd a Dylunio Cynhwysol<br>• Cyflawni Seilwaith<br>• Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth<br>• Sero Net, Ynni Adnewyddadwy a Newid Hinsawdd<br>• Trafnidiaeth Gynaliadwy<br>• Mannau Agored a Chwarae<br>• Cymunedau cynaliadwy ac Adnewyddu Cymdogaethau<br>• Iechyd, Llesiant a Chynaliadwyedd Bwyd<br>• Treftadaeth a Diwylliant<br>• Y Gymraeg<br>• Perygl Llifogydd a rheoli adnoddau dŵr<br>• Aer, Sŵn, Llygredd Golau a Thir Halogedig |

- Adnoddau Naturiol

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi cyfle i sefydliadau ac unigolion wneud sylwadau ar y strategaeth arfaethedig a'r polisïau strategol a manwl. Mae'n gam hanfodol wrth baratoi'r cynllun. Bydd y Cynllun Adneuo ynghyd â'r holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried gan Arolygydd Cynllunio annibynnol wrth archwilio'r cynllun sydd i fod i ddigwydd yn 2025.

**Beth yw'r costau a/neu'r arbedion?**
*Beth fydd cost y cynnig a sut gaiff ei ariannu?*
*Sut gellid lleihau costau drwy gyfranogiad a chydweithio, ar draws Cyngor Caerdydd a/neu gyda rhanddeiliaid allanol?*
*A oes arbedion a sut caiff y rhain eu gwireddu?*

Mae'r broses ar gyfer paratoi'r CDLl Newydd wedi'i rhagnodi yn neddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd Arolygydd annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru yn profi bod y cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r canllawiau hyn a bydd hyn yn helpu i benderfynu a yw'r cynllun yn gadarn.

O ystyried hyn, prin yw'r cyfleoedd i wneud arbedion ond mae'r Cyngor yn edrych i rannu costau'r gwaith sylfaen dystiolaeth gydag ACLlau cyfagos yn y rhanbarth ac yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithredu'n fewnol a gyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun yn cael ei ariannu o ddyraniad blynyddol o gyfrif Refeniw'r Cyngor.

## 3. Asesiadau Effaith

**Pa asesiadau o effaith y mae angen i chi eu cwblhau i gefnogi eich cynnig?**

| Asesiad o Effaith | Tudalen | I'w gwblhau: I/N |
|---|---|---|
| A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 4 | I |
| B. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | 10 | I |
| C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | 13 | I |
| D. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 18 | I |
| E. Asesiad Amgylcheddol Strategol | 19 | I |
| F. Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data | 20 | N |
| G. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | 21 | I |

Am ragor o wybodaeth am yr holl asesiadau o effaith uchod gan gynnwys â phwy i gysylltu am gyngor, ewch i'r Porth Polisi.

# A:  Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gellir cael canllawiau i gwblhau'r asesiad hwn yma. Cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb am unrhyw gymorth pellach o ran cwblhau'r asesiad hwn - TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

**Effaith ar y Nodweddion Gwarchodedig**

**Oedran**
A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl ifanc/pobl hŷn?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Hyd at 18 oed | | ✓ | |
| 18 - 65 oed | | ✓ | |
| Dros 65 oed | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nod y Cynllun Adneuo yw darparu cymysgedd priodol o fathau a meintiau anheddau, gan gynnwys tai sy'n addas i bobl hŷn.<br><br>Ar ben hynny, cydnabyddir y pwysau ar bobl iau sy'n codi o brisiau tai o'u cymharu ag incwm, ac mae'r Cynllun Adneuo hefyd yn anelu at ddarparu tai fforddiadwy ac ystod a dewis o gartrefi.<br><br>Lle bo'n bosibl lleoli datblygiad tuag at ardaloedd lle mae amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau eisoes a darparu gwasanaethau a chyfleusterau newydd lle mae diffyg - bydd hyn yn cynorthwyo perchnogion nad ydynt yn berchen ar geir.<br>.<br>Mae'r Cynllun yn cefnogi datblygiad y gellir ei ddylunio i addasu i anghenion newidiol ei breswylwyr.<br><br>Gall oedran fod yn ffactor wrth annog ymgysylltiad â'r broses CDLl, yn enwedig cyhoeddi deunydd ar y rhyngrwyd.  Mae'r defnydd o amrywiaeth o dechnegau ymgynghori felly'n bwysig (h.y. cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gohebiaeth bost).<br><br>Bydd hefyd yn bwysig ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth baratoi'r cynllun, a bydd dulliau ymgynghori priodol yn cael eu nodi gan gynnwys cynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r Cynllun Adneuo.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u><br><br>• **Polisi PS4 Sicrhau Ansawdd Da a Dylunio Cynaliadwy** Mae'r Cynllun yn cefnogi dylunio cynhwysol i sicrhau bod datblygiad yn creu amgylcheddau cynhwysol lle mae adeiladau a strydoedd, a mannau sy'n deillio o hyn, yn hygyrch i bob defnyddiwr drwy |

gydol y dydd a lle bo hynny'n bosibl, y gellir eu haddasu i newidiadau mewn iechyd yn y dyfodol (megis lleihau symudedd a all gyd-fynd â'r broses heneiddio) a gofynion cymdeithasol, economaidd a thechnolegol ac amgylcheddol.

- **Polisi PS4 Sicrhau Ansawdd Da a Dylunio Cynaliadwy** Mae'r cynllun yn cefnogi diogelwch cymunedol a'i nod yw creu mannau cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel oherwydd gwyliadwriaeth oddefol neu gymunedol, a sicrhau bod llwybrau'n weladwy lle bo modd a'u goleuo i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n dda.
- **Mae Polisi PS11 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy a H3 Tai Fforddiadwy** yn cynnig amrywiaeth a dewis o feintiau anheddau, deiliadaeth, mathau a lleoliadau sy'n diwallu anghenion penodol, gan gynnwys tai fforddiadwy, tai i bobl hŷn ac ar gyfer unedau teulu er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc.
- **Nod polisïau PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy, R4 Canolfannau Dosbarth, R5 Canolfannau Lleol, C1 Cyfleusterau Cymunedol, C2 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol, C4 Cynllunio ar gyfer Ysgolion, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, OS1 Gwarchod Gofod Agored, OS2 Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwarae Plant a Chwaraeon a P1 Chwarae a Hamdden Anffurfiol** yw annog gwella cymunedau drwy gynnig mynediad mwy cydradd at wasanaethau i bawb, gan gynnwys cyfleusterau cymdeithasol, iechyd, chwarae a hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol sy'n hygyrch i bawb trwy gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- **Nod polisïau PS13 Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch, HF1 Iechyd, Llesiant a Datblygiad, OS1 Gwarchod Mannau Agored, OS2 Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwarae Plant a Chwaraeon a P1 Chwarae a Hamdden Anffurfiol** yw hyrwyddo mannau gwyrdd hygyrch a defnyddiadwy.
- **Nod polisïau PS18 Darparu Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, T2 Trafnidiaeth Gyflym Strategol, Coridorau Bysiau a Gwella Bysiau, T3 Trafnidiaeth Rheilffordd a T4 Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth** yw sicrhau bod cysylltiadau â rhwydweithiau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus presennol yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd â gofynion mynediad a symudedd penodol.

**Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod.

Bydd dulliau ymgynghori priodol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth baratoi'r cynllun, gan gynnwys cynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r Cynllun Adneuo.

**Anabledd**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl anabl?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Amhariad ar y Clyw | | ✓ | |
| Amhariad Corfforol | | ✓ | |
| Amhariad ar y Golwg | | ✓ | |
| Anabledd Dysgu | | ✓ | |
| Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | | ✓ | |
| Iechyd Meddwl | | ✓ | |
| Camddefnyddio Sylweddau | | ✓ | |
| Arall | | ✓ | |

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.**

Nod y Cynllun Adneuo yw lleoli datblygiad lle bo hynny'n bosibl tuag at ardaloedd lle mae ystod o wasanaethau a chyfleusterau eisoes a darparu gwasanaethau a chyfleusterau newydd lle mae diffyg - bydd hyn yn cynorthwyo pobl nad ydynt yn berchen ar geir.

Mae hefyd yn anelu at gefnogi datblygiad y gellir ei gynllunio i addasu i anghenion newidiol ei ddeiliaid ac mae'n gofyn i ddatblygiad sicrhau mynediad diogel a boddhaol i bobl anabl.

Yn ystod camau ymgynghori ac ymgysylltu ar y cynllun, bydd y Cyngor yn darparu deunydd mewn fformatau priodol ar gais.

Polisïau Strategol Perthnasol

- **Polisi PS4 Sicrhau Ansawdd Da a Dylunio Cynaliadwy** Mae'r Cynllun yn cefnogi dylunio cynhwysol i sicrhau bod datblygiad yn creu amgylcheddau cynhwysol lle mae adeiladau a strydoedd, a mannau sy'n deillio o hyn, yn hygyrch i bob defnyddiwr gydol y dydd a lle bo hynny'n bosibl, y gellir eu haddasu i newidiadau mewn iechyd yn y dyfodol (megis lleihau symudedd a all gyd-fynd â'r broses heneiddio) a gofynion cymdeithasol, economaidd a thechnolegol ac amgylcheddol.
- **Mae polisi PS4 Sicrhau Ansawdd Da a Dylunio Cynaliadwy ac C3 Diogelwch Cymunedol/Creu Amgylcheddau Diogel** y cynllun yn cefnogi diogelwch cymunedol a'i nod yw creu mannau cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel oherwydd gwyliadwriaeth oddefol neu gymunedol, a sicrhau bod llwybrau'n weladwy lle bo modd a'u goleuo i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n dda.
- **Nod polisïau PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy, R4 Canolfannau Dosbarth, R5 Canolfannau Lleol, C1 Cyfleusterau Cymunedol, C2 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol, C4 Cynllunio ar gyfer Ysgolion, T1**

| |
|---|
| **Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, OS1 Gwarchod Gofod Agored, OS2 Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwarae Plant a Chwaraeon a P1 Chwarae a Hamdden Anffurfiol** yw annog gwella cymunedau drwy well cydraddoldeb mynediad at wasanaethau i bawb, gan gynnwys cyfleusterau cymdeithasol, iechyd, chwarae a hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol sy'n hygyrch i bawb trwy gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>• **Nod Polisiau PS12 Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch a HF1 Iechyd, Llesiant a Datblygiad** yw lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach, annog dulliau byw iach, mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch.<br>• **Nod polisïau PS18 Darparu Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, T2 Trafnidiaeth Gyflym Strategol, Coridorau Bysiau a Gwella Bysiau, T3 Trafnidiaeth Rheilffordd a T4 Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth** yw sicrhau bod cysylltiadau â rhwydweithiau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus presennol yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd â gofynion mynediad a symudedd penodol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod.<br><br>Yn ystod camau ymgynghori ac ymgysylltu ar y cynllun, bydd y Cyngor yn darparu deunydd mewn fformatau priodol ar gais i ateb gofynion grwpiau perthnasol. |

**Ailbennu Rhywedd**
A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl drawsryweddol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Pobl Drawsryweddol<br>(Pobl sy'n bwriadu ymgymryd, sydd yn ymgymryd neu sydd wedi ymgymryd â phroses [neu ran o broses] i ailbennu eu rhyw trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau eraill rhywedd). | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u> |

- **Nod polisiau PS4 Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da a C3 Diogelwch Cymunedol/Creu Amgylcheddau Diogel** yw gwella diogelwch pobl drawsryweddol sydd mewn perygl o ddioddef troseddau casineb a stigma drwy greu mannau cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel oherwydd gwyliadwriaeth oddefol neu gymunedol, a sicrhau bod llwybrau'n weladwy lle bo modd a'u goleuo i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n dda.
- **Nod polisïau PS13: Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch a HF1 Iechyd, llesiant a Datblygu** yw lleihau anghydraddoldebau iechyd mewn grwpiau sy'n cael eu stigmateiddio mewn cymdeithas, yn gyffredinol â lefelau iechyd gwaeth oherwydd y stigma/ gwahaniaethu a nod y polisi hwn yw lleihau anghydraddoldebau iechyd.

| Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol? |
|---|
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Priodas | | ✓ | |
| Partneriaeth Sifil | | ✓ | |

| Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth. |
|---|
| Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn o ystyried nodau a phwrpas y CDLl Newydd. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**
A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | ✓ | |
| Mamolaeth | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Bydd y grŵp hwn yn cael ei ddylanwadu fwyaf gan leoliad tai mewn perthynas â chyfleusterau gofal iechyd a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'n bwysig bod gan y grŵp hwn fynediad hawdd at gyfleusterau a chyfleoedd o'r fath fel nad ydynt wedi'u hynysu o'u cymunedau.<br><br>Bydd y Cynllun Adneuo yn hwyluso lefel briodol o ddatblygiadau tai i'w lleoli ger y cyfleusterau a'r cyfleoedd hyn a/neu mewn lleoliadau hygyrch sydd â rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon. Bydd lleoliad datblygiadau o ran hygyrchedd drwyl ddulliau trafnidiaeth gwahanol hefyd yn bwysig.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u><br><br>• **Mae polisi PS4 Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da** y Cynllun yn cefnogi dylunio cynhwysol i sicrhau bod datblygiad yn creu amgylcheddau cynhwysol lle mae adeiladau a strydoedd a gofodau sy'n deillio o hyn yn hygyrch i bob defnyddiwr gydol y dydd, a lle bo hynny'n bosibl, y gellir eu haddasu i newidiadau yn y dyfodol o ran iechyd a gofynion cymdeithasol, economaidd a thechnolegol ac amgylcheddol.<br>• **Nod polisïau PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy, R4 Canolfannau Dosbarth, R5 Canolfannau Lleol, C1 Cyfleusterau Cymunedol, C2 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol, C4 Cynllunio ar gyfer Ysgolion, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, OS1 Gwarchod Gofod Agored, OS2 Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwarae Plant a Chwaraeon a P1 Chwarae a Hamdden Anffurfiol** yw annog gwella cymunedau drwy well cydraddoldeb mynediad at wasanaethau i bawb, gan gynnwys cyfleusterau cymdeithasol, iechyd, chwarae a hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol sy'n hygyrch i bawb trwy gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>• **Nod polisïau PS12 Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch a HF1 Iechyd, llesiant a Datblygu** yw lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach, annog dulliau byw iach, mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a chreu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |

| |
|---|
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Hil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Gwyn | | ✓ | |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig | | ✓ | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | | ✓ | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | | ✓ | |
| Grwpiau Ethnig Eraill | | ✓ | |

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.

Bydd yn bwysig ymgysylltu â chymunedau ethnig ac ystyried rhwystrau ieithyddol rhag ymgysylltu â'r cynllun. Gofynnir am gyngor ar hyn gan bartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol ar hyn.

<u>Polisïau Strategol Perthnasol</u>

- **Mae polisïau PS11 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy. H3 tai Fforddiadwy, H10 Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr a H11 Polis Dyrannu ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** yn darparu ar gyfer ystod a dewis o feintiau mewn anheddau, deiliadaethau, mathau a lleoliadau sy'n diwallu anghenion penodol, gan gynnwys tai fforddiadwy, tai pobl hŷn ac ar gyfer unedau teulu er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn darparu ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.
- **Nod polisïau PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy, R4 Canolfannau Dosbarth, C5 Canolfannau Lleol, C1 Cyfleusterau Cymunedol, C2 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol, C4 Cynllunio ar gyfer Ysgolion, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, OS1 Diogelu Gofod Agored, OS2 Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwarae Plant a Chwaraeon a P1 Chwarae a Hamdden anffurfiol** yw annog gwella cymunedau drwy fynediad mwy cydradd at wasanaethau i bawb, gan gynnwys cyfleusterau cymdeithasol, iechyd,

chwarae a hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol sy'n hygyrch i bawb trwy gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- **Nod polisïau PS13: Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch a HF1 Iechyd, Llesiant a Datblygu** yw lleihau grwpiau anghydraddoldebau iechyd, a nodir bod anghydraddoldebau iechyd sylweddol ar hyd llinellau hil ac ethnigrwydd, felly bydd angen i gamau i leihau anghydraddoldebau iechyd ystyried yr agwedd hon.

**Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod.

Ymgysylltu â chymunedau ethnig amrywiol a darparu gwybodaeth/ymgysylltu mewn ffyrdd hygyrch

**Crefydd, Credoau, neu Ddiffyg Cred**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl sydd â chrefyddau, credoau gwahanol neu ddiffyg cred?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Bwdhaidd | | ✓ | |
| Cristnogol | | ✓ | |
| Hindŵaidd | | ✓ | |
| Dyneiddiol | | ✓ | |
| Iddewig | | ✓ | |
| Mwslimaidd | | ✓ | |
| Sîc | | ✓ | |
| Arall | | ✓ | |

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.

Efallai y bydd rhai grwpiau crefyddol angen adeiladau pwrpasol a bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn y cam uwchgynllunio manwl.

Efallai y bydd angen hefyd ystyried amseriad a lleoliad digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn ofalus.

<u>Polisïau Strategol Perthnasol</u>

| |
|---|
| • **Mae polisiau PS11 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy, C1 Cyfleusterau Cymunedol ac c2 Gwarchod Cyfleusterau Cymunedol** yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac annog darparu ystod lawn o gyfleusterau cymunedol.<br>• **Mae polisiau PS13 Diogelu a Gwella Treftadaeth a Diwylliant Adeiledig a HE1 Yr Amgylchedd Hanesyddol** yn gwarchod treftadaeth adeiledig gan gynnwys adeiladau crefyddol o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod.<br><br>Efallai y bydd angen hefyd ystyried amseriad a lleoliad digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn ofalus a byddwn yn edrych i ddarparu ymgysylltu hygyrch i adlewyrchu hyn. |

**Rhyw**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar ddynion a/neu fenywod?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Dynion | | ✓ | |
| Menywod | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mewn rhannau o'r boblogaeth, efallai y bydd gan fenywod symudedd mwy cyfyngedig mewn cartrefi un car a allai arwain at rywfaint o unigedd. Bydd ffocws datblygiad newydd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus dda yn sicrhau bod y grŵp hwn yn cael gwell cydraddoldeb mynediad at wasanaethau, cyflogaeth ac ati. Bydd cynyddu hygyrchedd yr amgylchedd adeiledig, trafnidiaeth gyhoeddus a thai a gwella mynediad at wasanaethau o fudd i ddynion a menywod, ond bydd o fudd arbennig i bobl â chyfrifoldebau gofalu.<br><br>Bydd polisïau manylach y Cynllun yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion fel dylunio,<br>yr ardal gyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus ac ofn trosedd a allai effeithio ar ddynion a menywod.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u> |

| |
|---|
| • **Nod polisi PS4 Sicrhau Ansawdd Da a Dylunio Cynaliadwy** yw cefnogi diogelwch cymunedol a mynd i'r afael â'r ffaith bod menywod yn agored i niwed trais rhywiol ac i'r berygl mwy sydd i ddynion ifanc o ddioddef ymosodiad corfforol trwy ddarparu gwyliadwriaeth oddefol neu gymunedol, a sicrhau bod llwybrau'n weladwy lle bo modd ac wedi'u goleuo i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n dda.<br>• **Nod polisïau PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy R4 Canolfannau Dosbarth, R5 Canolfannau Lleol, C1 Cyfleusterau Cymunedol , C2 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol, C4 Cynllunio ar gyfer Ysgolion, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, OS1 Gwarchod Mannau Agored, OS2 Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored, Hamdden Awyr Agored, Chwarae Plant a Chwaraeon a P1 Chwarae a Hamdden Anffurfiol** yw annog gwella cymunedau drwy well cydraddoldeb mynediad at wasanaethau i bawb, gan gynnwys cyfleusterau cymdeithasol, iechyd, chwarae a hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol sy'n hygyrch i bawb trwy gerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>• **Nod polisïau PS13: Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch a HF1 Iechyd, Llesiant a Datblygu** yw lleihau grwpiau anghydraddoldebau iechyd. Nodir bod llawer o anghydraddoldebau iechyd ar hyd llinellau rhywedd. Er enghraifft, mae menywod yn profi iechyd meddwl tlotach, mae gan ddynion ddisgwyliad oes is. Mae angen i'r camau ar anghydraddoldebau iechyd fynd i'r afael yn benodol â'r anghydraddoldebau rhywedd hyn.<br>• **Nod polisïau PS18 Darparu Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, T2 Trafnidiaeth Gyflym Strategol, Coridorau Bysiau a Gwella Bysiau, T3 Trafnidiaeth Rheilffordd a T4 Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth** yw sicrhau bod cysylltiadau â rhwydweithiau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus presennol yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd â gofynion mynediad a symudedd penodol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | | ✓ | |
| Dynion Hoyw | | ✓ | |
| Menywod Hoyw/Lesbiaid | | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol/Syth | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u><br><br>• **Polisi SP4 Sicrhau Ansawdd Da a Dylunio Cynaliadwy** Ei nod yw cefnogi diogelwch cymunedol a gwella diogelwch i bobl sydd mewn perygl o droseddau casineb a cham-drin a stigma homoffobaidd/deuffobig trwy greu mannau cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel oherwydd gwyliadwriaeth oddefol neu gymunedol, a sicrhau bod llwybrau'n weladwy lle bo modd a'u goleuo i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n dda.<br>• **Nod polisïau PS13: Sicrhau Iechyd a Llesiant a Gwydnwch a HF1 Iechyd, Llesiant a Datblygu** yw lleihau grwpiau anghydraddoldebau iechyd sy'n cael eu stigmateiddio mewn cymdeithas yn gyffredinol, sydd â lefelau iechyd gwaeth oherwydd y stigma/ gwahaniaethu a nod y polisi hwn yw lleihau anghydraddoldebau iechyd. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**
A ragwelir y bydd y newid yn lleihau neu'n cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniad, oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol? (e.e. a fydd y newid yn cael effaith negyddol ar y rheini sydd ar incwm isel, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig)

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Effaith economaidd-gymdeithasol | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nod y Cynllun Adneuo yw darparu 32,300 o swyddi newydd hyd at 2036 trwy ddarparu ystod a dewis o gyflogaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth mewn gwahanol leoliadau daearyddol ledled y ddinas. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fframwaith cryf i ddiogelu rôl tir cyflogaeth y ddinas yn y dyfodol, trwy ddynodi tir a safleoedd cyflogaeth pwysig yn strategol a lleol. |

| |
|---|
| Nod y Cynllun Adneuo hefyd yw darparu 26,400 o gartrefi newydd gydag ystod o feintiau, deiliadaethau, mathau a lleoliadau o ran anheddau sy'n diwallu'r ystod lawn o anghenion tai, yn enwedig llety fforddiadwy, llety sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ac unedau teuluol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.<br><br>Nod y cynllun hefyd yw darparu cymunedau cytbwys a chydlynus, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth trwy gefnogi adfywio cymunedau o amddifadedd yn y ddinas a sicrhau'r buddion ychwanegol y gall cymunedau newydd eu cynnig i gymunedau cyfagos neu o'u hamgylch.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u><br><br>• **Nod Polisi PS1 Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy (Cartrefi a Swyddi)** yw diwallu'r anghenion economaidd a chymdeithasol yn unol â'r dystiolaeth drwy ddarparu 32,300 o swyddi hyd at 2036.<br>• **Nod polisïau PS2 Cynnal Twf Economaidd a Gwydnwch, EC1 Ardal Fenter Ganolog Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol, EC3 gwarchod Tir a Safleoedd Cyflogaeth, EC6 Gwarchod Swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae** yw darparu ystod a dewis o gyflogaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth mewn gwahanol leoliadau daearyddol ar draws y ddinas. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fframwaith cryf i ddiogelu rôl tir cyflogaeth y ddinas yn y dyfodol, trwy ddynodi tir a safleoedd cyflogaeth pwysig yn strategol a lleol.<br>• **Nod polisiau PS11 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy a H3 Tai Fforddiadwy** yw darparu tai fforddiadwy a chymunedau cytbwys a chydlynus, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth trwy gefnogi adfywio cymunedau o amddifadedd yn y ddinas a sicrhau'r buddion ychwanegol y gall cymunedau newydd eu cynnig i gymunedau cyfagos neu o'u hamgylch.<br>• **Nod polisïau PS18 Darparu Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol, T1 Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, T2 Trafnidiaeth Gyflym Strategol, Coridorau Bysiau a Gwella Bysiau, T3 Trafnidiaeth Rheilffordd a T4 Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth** yw sicrhau bod cysylltiadau â rhwydweithiau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus presennol yn hygyrch i bawb. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Y Gymraeg**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y Gymraeg?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | | ✓ | |

| **Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, gan ddarparu tystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn debygol o gael effaith andwyol ar y grŵp hwn.<br><br>Bydd ymgynghori ac ymgysylltu ar y Cynllun Adneuo yn cydymffurfio â dyletswyddau Safonau'r Gymraeg y Cyngor mewn ymgynghoriad â Chaerdydd Ddwyieithog a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.<br><br><u>Polisïau Strategol Perthnasol</u><br><br>• **Nod polisi PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy** yw annog gwella cymunedau drwy ddarparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg i ddarparu cymunedau cytbwys a chydlynus, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, trwy gefnogi adfywio cymunedau o amddifadedd yn y ddinas a sicrhau'r buddion ychwanegol y gall cymunedau newydd eu cynnig i gymunedau cyfagos neu o'u hamgylch.<br>**Polisïau SP15 Sicrhau a Gwella Cyfleoedd i Dyfu'r Gymraeg a WL1 Y Gymraeg** sy'n nodi Caerdydd fel ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol a'i nod yw cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu, hyrwyddo a chryfhau buddiannau'r Gymraeg er mwyn sicrhau Caerdydd ddwyieithog. Mae'r polisi hefyd yn datgan lle bo'n briodol y disgwylir i gynigion datblygu adnabod mesurau cadarnhaol sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg, sy'n cynyddu'r cyfleoedd i siarad yr iaith yn ddyddiol yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru yn achos effeithiau andwyol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol, a gellid dadlau y bydd y Cynllun Adneuo yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn – gweler y rhesymau/cyfiawnhad uchod. |

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori/ymgysylltu â'r gwahanol grwpiau cydraddoldeb?

| |
|---|
| Wrth ddatblygu'r Cynllun Adneuo, mae'r Cyngor wedi ymgynghori ac ymgysylltu ag ystod o grwpiau cydraddoldeb, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau ethnig, plant ysgol a phobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau anabl a mynediad a rhwydweithiau cydraddoldeb y Cyngor. |

| |
|---|
| Yn ystod yr ymgysylltu a'r ymgynghori sydd i ddod ar y Cynllun Adneuo yn gynnar yn 2025 byddwn yn ymgysylltu â'r grwpiau hyn eto i ofyn am eu barn ar y Cynllun Adneuo.<br><br>I gynorthwyo bydd hyn yn gofyn am gyngor gan bartneriaid a rhanddeiliaid ar sut y dylem wneud hyn a pha ddulliau ymgysylltu sydd fwyaf priodol ar gyfer gwahanol grwpiau. |

**Crynodeb o Gamau Gweithredu (Rhestrir yn yr adrannau uchod)**

| | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Oedran | Bydd dulliau ymgynghori priodol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth baratoi'r cynllun, gan gynnwys cynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r Cynllun Adneuo. |
| Anabledd | Yn ystod camau ymgynghori ac ymgysylltu ar y cynllun, bydd y Cyngor yn darparu deunydd mewn fformatau priodol ar gais i ateb gofynion grwpiau perthnasol. |
| Ailbennu Rhywedd | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | |
| Hil | Ymgysylltu â chymunedau ethnig amrywiol a darparu gwybodaeth/ymgysylltu mewn ffyrdd hygyrch |
| Crefydd/Cred | Efallai y bydd angen hefyd ystyried amseriad a lleoliad digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn ofalus a bwriadwn ddarparu ymgysylltu hygyrch i adlewyrchu hyn. |
| Rhyw | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |
| Effaith economaidd-gymdeithasol | |
| Y Gymraeg | |
| Cyffredinol/ Trosfwaol (yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod) | |

**Y Camau Nesaf**

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, sicrhewch fod y ffurflen yn cael ei chyflwyno i flwch post y Tîm Cydraddoldeb fel bod cofnod o'r holl asesiadau a gynhelir yn y Cyngor - TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

CYNGOR CAERDYDD

# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT (AEHP)

I gael gwybodaeth am yr AEHP neu gymorth gyda chwblhau'r asesiad, e-bostiwch Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth sy'n cael ei asesu:** | Cynllun Adneuo'r CDLl Newydd |
| **Math o Asesiad:** | Newydd |

| Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth? | |
|---|---|
| **Enw:** | Stuart Williams |
| **Teitl Swydd:** | Arweinydd Grwp (Polisi Strategol) |
| **Tîm/Gwasanaeth:** | Polisi Cynllunio/Strategol |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

## CAM 1: DIBEN/CWMPAS

1. **Beth yw'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth?**
   **Crynhowch ei nodau cyffredinol ac unrhyw nodau sy'n benodol i blant.**

Mae'r ddogfen yn nodi fframwaith defnydd tir strategol lefel uchel ar gyfer twf a datblygiad Caerdydd yn y dyfodol hyd at 2036, gan ymateb i anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'n cynnwys polisïau manwl a strategol yn ymwneud ag ystod o bynciau gan gynnwys:

- Lefel Twf (Cartrefi a Swyddi) a dyraniadau
- Cynnal Twf a Gwydnwch Economaidd
- Ymateb i anghenion cymdeithasol (yn cynnwys Tai Fforddiadwy a Sipsiwn a Theithwyr)
- Cyfleusterau Cymunedol gan gynnwys ysgolion a diogelwch cymunedol
- Manwerthu ac economi'r nos
- Cefn gwlad, lletem Las, Gwarchod Tirwedd a Dyffrynoedd Afonydd
- Uwchgynllunio, Creu lleoedd a Dylunio Cynhwysol
- Cyflawni Seilwaith
- Seilwaith Werdd a Bioamrywiaeth
- Sero Net, Ynni Adnewyddadwy a Newid Hinsawdd
- Trafnidiaeth Gynaliadwy
- Mannau Agored a Chwarae
- Cymunedau Cynaliadwy ac Adnewyddu Cymdogaethau
- Iechyd, Llesiant a chynaliadwyedd bwyd
- Treftadaeth a Diwylliant

| |
|---|
| • Y Gymraeg<br>• Perygl Llifogydd a rheoli adnoddau dŵr<br>• Aer, Sŵn, Llygredd Golau a Thir Halogedig<br>• Adnoddau Naturiol<br>Pynciau yn ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc gan gynnwys:<br><br>• Gwarchod mannau agored presennol a darparu mannau agored newydd;<br>• Cynyddu cyfleoedd chwarae;<br>• Darparu amgylcheddau diogel;<br>• Gwarchod cyfleusterau cymunedol presennol a darparu cyfleusterau cymunedol newydd;<br>• Hyrwyddo Iechyd a Llesiant<br>• Cynllunio ar gyfer ysgolion; a<br>• Dylunio cynhwysol lle mae adeiladau a strydoedd a gofodau yn hygyrch i bob defnyddiwr.<br>Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi cyfle i sefydliadau ac unigolion wneud sylwadau ar y strategaeth arfaethedig a'r polisïau strategol a manwl. Mae'n gam hanfodol wrth baratoi'r cynllun. Bydd y Cynllun Adneuo ynghyd â'r holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried gan Arolygydd Cynllunio annibynnol wrth archwilio'r cynllun sydd i fod i ddigwydd yn 2025. |

2. **Dewiswch y grwpiau o blant a phobl ifanc a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol a/neu'n anuniongyrchol. Adolygwch yr wybodaeth ar ôl cwblhau'r ffurflen.**

| | |
|---|---|
| ☐ Nodweddion Gwarchodedig | ☐ AHY |
| ☐ Rhieni Ifanc | ☐ Teithwyr Sipsiwn |
| ☐ Plant Rhieni Sengl | ☐ Ceiswyr Lloches |
| ☐ Plant yr Arc Ddeheuol | ☐ Cymuned PDdALIE |
| ☐ Plant Rhieni Byddar | ☐ Profiad o Fod Mewn Gofal |
| ☐ Gofalwyr Ifanc | ☐ Cyn-ysgol |
| ☐ Ysgol Gynradd | ☐ Ysgol Uwchradd |
| ☐ Cymraeg Iaith Gyntaf | ☐ Siaradwyr Saesneg Anfrodorol |
| ☐ Ardal Leol Benodol | ☒ Dinas Gyfan |
| ☐ LHDTC+ | ☐ ADY |
| ☐ Cyfiawnder Ieuenctid | Arall - Pob Grŵp |

**CAM 2: ADEILADU AC ASESU**

Mae Egwyddorion Cyffredinol CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) wrth wraidd ymagwedd hawliau plant. Bydd y ddolen hon yn mynd â chi i dudalen ar ein gwefan gyda rhestr lawn o Hawliau Plant a gwybodaeth ategol. Cliciwch yma i gael mynediad at restr o erthyglau wedi'u grwpio'n themâu cyffredin.

3. **Beth yw effaith debygol/wirioneddol y cynnig ar hawliau plant? A yw'n gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral?**

| *Disgrifiwch yr effaith* | *Erthyglau CCUHP perthnasol* | *Graddfa'r Effaith* | *Sut i liniaru effaith (os yw'n negyddol)* ⓘ - gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|
| Cadw a Darparu Mannau Gwyrdd: Mae gwarchod mannau agored presennol a chreu ardaloedd newydd ar gyfer hamdden a chwarae yn annog gweithgarwch corfforol a lles i blant a phobl ifanc. Mae hyn hefyd yn darparu gofodau diogel a hygyrch ar gyfer ymlacio a rhyngweithio cymunedol. | Erthygl 31 (Yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant); Erthygl 6 (Yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad) | Cadarnhaol | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |
| Diogelwch Cymunedol a Mannau Cynhwysol: Mae pwysleisio amgylcheddau diogel a dylunio cynhwysol mewn adeiladau a mannau cyhoeddus yn cefnogi rhyddid plant i symud a'u hawl i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. | Erthygl 3 (Lles pennaf y plentyn); Erthygl 2 (Anwahaniaethu) | Cadarnhaol | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |
| Cyfleoedd Gwell ar gyfer Chwarae a Hamdden Anffurfiol: Mae cyfleusterau newydd a gwell ar gyfer chwarae a hamdden anffurfiol wedi'u cynllunio gydag anghenion datblygiadol plant mewn golwg, gan gyfrannu at eu lles cyffredinol a'u rhyngweithio cymdeithasol. | Erthygl 31 (Hawl i hamdden, chwarae a diwylliant): Erthygl 12 (Parchu barn y plentyn) | Cadarnhaol | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |
| Mynediad at Gyfleusterau Cymunedol Hanfodol: Mae darparu a gwarchod cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgolion, yn gwella ansawdd bywyd plant a'u mynediad at adnoddau hanfodol. | Erthygl 27 (Safon byw ddigonol): Erthygl 3 (Buddiannau gorau'r plentyn) | Cadarnhaol | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |
| Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu effaith. | Cliciwch yma i nodi erthygl. | Dewiswch werth. | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu effaith. | Cliciwch yma i nodi erthygl. | Dewiswch werth. | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |
| Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu effaith. | Cliciwch yma i nodi erthygl. | Dewiswch werth. | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |
| Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu effaith. | Cliciwch yma i nodi erthygl. | Dewiswch werth. | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu mesur lliniaru. |

**CAM 3: LLAIS A THYSTIOLAETH**

4. **Sut ydych chi'n bwriadu adolygu'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth i sicrhau ei fod yn parchu, gwarchod a chyflawni hawliau plant?** ⓘ - gwybodaeth ychwanegol

Monitro Blynyddol: Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) yn cael ei adolygu a'i fonitro'n flynyddol. Bydd canlyniadau'r monitro hwn yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, y mae Cyngor Caerdydd yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru bob mis Hydref.
Ymgysylltu ag Ieuenctid: Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth adolygu a gweithredu'r CDLlN. Mae hyn yn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion esblygol pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio i ddatblygiadau parhaus.
Mecanweithiau Adborth: Bydd adborth uniongyrchol gan blant yn cael ei annog drwy weithgareddau'r Cyngor Ieuenctid, ysgolion a phrosiectau cymunedol sy'n canolbwyntio ar blant, gan ganiatáu ar gyfer gwelliant parhaus ac aliniad â hawliau plant.

5. **Ydych chi wedi canfod a chynnwys barn a phrofiadau plant a phobl ifanc? Beth ydych chi'n ei wybod am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r cynnig?** ⓘ - gwybodaeth ychwanegol

Hanes Ymgysylltu Helaeth: Mae Cyngor Caerdydd wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc (P+PhI) dros nifer o flynyddoedd, gan ymgynghori i ddechrau ar y strategaeth a ffefrir mewn digwyddiad cyngor mawreddog lle mynychodd bron i 1,000 o blant. Mae ymgysylltiad ychwanegol â P+PhI wedi ei hwyluso drwy bartneriaethau â sefydliadau trydydd sector a chymunedol, gan sicrhau mewnbwn amrywiol ar draws gwahanol grwpiau a chymunedau.

Trefniadau Ymgysylltu ar gyfer 2025: Yn gynnar yn 2025, mae gweithgareddau ymgysylltu pellach ar Gynllun Adneuo'r CDLl wedi eu trefnu, gan ganiatáu i blant a phobl ifanc adolygu a chynnig sylwadau ar y cynigion diweddaraf.

Ymrwymiad i'r Hawl i Chwarae: Gan gydnabod pwysigrwydd chwarae a amlygwyd

mewn ymgynghoriadau a'i gefnogi gan archwiliad digonolrwydd chwarae diweddar, mae Cyngor Caerdydd wedi integreiddio 'Polisi Chwarae' i'r Cynllun Adneuo. Mae'r polisi hwn yn ailddatgan yr hawl i chwarae fel rhywbeth hanfodol i lesiant plant ac i gynhwysiant cymunedol.

**CAM 4: CYLLIDEB**

Mae'n bwysig ystyried yr adnoddau a'r elfennau cyllidebol sy'n cael eu priodoli'n uniongyrchol i blant a phobl ifanc er mwyn galluogi goruchwyliaeth.

6. **Beth yw'r gyllideb ar gyfer y polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth?**
   **Yn eich ateb, dylech gynnwys unrhyw ddyraniadau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc ac a fydd unrhyw ran o'r gyllideb yn cael ei defnyddio i liniaru effeithiau negyddol a nodwyd uchod.**

Mae lwfans cyllideb cyffredinol ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r cynllun ac mae rhan o'r gyllideb hon wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith ymgysylltu sydd, fel y nodir uchod, wedi cynnwys ymgynghori yn benodol â phlant a phobl ifanc. Mae cyllideb i barhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar y cynllun a byddwn hefyd yn neilltuo cyllid ar gyfer fersiwn o'r CDLlN sy'n addas i blant ar fabwysiadu'r cynllun.

**CAM 5: CAMAU GWEITHREDU A NODWYD**

7. **Pa gamau gweithredu a nodwyd neu ba newidiadau a wnaed i'r polisi/ strategaeth/ prosiect/ gweithdrefn / gwasanaeth o ganlyniad i'r asesiad hwn?**
   ⓘ - gwybodaeth ychwanegol

Dim Angen Newidiadau Arwyddocaol: Ni nododd yr asesiad hwn unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant oedd yn gofyn am addasu'r CDLlN. Mae'r polisïau arfaethedig wedi'u cynllunio i barchu a chyflawni hawliau plant yn rhagweithiol.

Cryfhau Hawliau Chwarae: Mae cynnwys 'Polisi Chwarae' pwrpasol yn y Cynllun Adneuo yn enghraifft o ymrwymiad Cyngor Caerdydd i'r hawl i chwarae, gan flaenoriaethu mynediad at gyfleoedd chwarae diogel a digonol fel elfen graidd o'r CDLlN. Mae hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r anghenion chwarae a nodwyd gan blant ac yn sicrhau bod datblygiad trefol Caerdydd yn ystyried anghenion llesiant a datblygiadol ei thrigolion ifanc.

Ymagwedd Flaengar at Hawliau Plant: Mae'r CDLlN yn ymgorffori polisïau i greu mannau cymunedol diogel, hygyrch a chynhwysol, gan danlinellu ymrwymiad i wireddu hawliau plant yn gynyddol. Trwy ymgorffori hawl plant i amgylchedd diogel a chefnogol o fewn amcanion cynllunio ehangach, mae'r CDLlN yn sicrhau y gall plant a phobl ifanc hawlio eu hawliau i chwarae, diogelwch, addysg a llesiant wrth i'r ddinas dyfu.

**AWDURDODI**

Dylai Swyddog Arweiniol y polisi/strategaeth/project/gweithdrefn/gwasanaeth gwblhau’r templed a dylai’r rheolwr priodol ei gymeradwyo.

| | |
|---|---|
| Cwblhawyd Gan: | Cliciwch neu tapiwch yma i nodi enw. |
| Dyddiad Cyflwyno: | Cliciwch neu tapiwch yma i roi dyddiad. |
| Teitl Swydd: | Cliciwch neu tapiwch yma i nodi teitl swydd. |
| Cymeradwywyd gan: | Cliciwch neu tapiwch yma i nodi enw. |
| Teitl Swydd: | Cliciwch neu tapiwch yma i nodi teitl swydd. |

**Llywodraethiant a Gwneud Penderfyniadau**

Pan ystyrir bod angen AEHP, rhaid i chi atodi'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r Adroddiad Cabinet neu’r Adroddiad Penderfyniad Swyddog. Rhaid hefyd anfon copi drwy e-bost at Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

**Cyngor a Chymorth**

Canllawiau Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant UNICEF ar gyfer Llywodraeth Leol:
Child rights impact assessment - Child Friendly Cities & Communities (unicef.org.uk)

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth gyda chwblhau’r AEHP, e-bostiwch Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

# C: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cysylltwch â Thîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog am unrhyw gymorth yn cwblhau'r asesiad hwn, drwy e-bostio Materion Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Matters.

## Safonau'r Gymraeg 88-97 (Llunio Polisi)

Gellir dod o hyd i Hysbysiad Cydymffurfio llawn Cyngor Caerdydd yma, ond mae'r Safonau a nodir uchod yn benodol yn ymwneud â pha effaith, os o gwbl, sydd gan eich cynnig (boed yn benderfyniad polisi, polisi neu strategaeth newydd neu ddiwygiedig, neu ddarpariaeth gwasanaethau diwygiedig) ar yr iaith Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg. Gallai'r effaith a nodwyd fod yn **uniongyrchol neu'n anuniongyrchol** a rhaid cynnwys unrhyw dystiolaeth o'r fath.

Maent wedi eu crynhoi isod, a **rhaid** i chi ddarparu tystiolaeth, yn enwedig o unrhyw ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, er mwyn cefnogi eich sylwadau, p'un a ydych yn nodi effaith gadarnhaol, andwyol neu niwtral.

- A fydd y cynnig hwn yn effeithio ar a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a b) **peidio** â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | Cadarnhaol | Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|---|
| a) | X | | |
| b) | X | | |

**Yn seiliedig ar eich ateb uchod, rhowch sylwadau a thystiolaeth ategol yn y blychau perthnasol ar y cwestiynau canlynol, ar gyfer pob un o'r uchod yr ydych wedi eu ticio.**

- A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn, fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol?

  A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn i sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu effaith llai andwyol?

Ni ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac i drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn hytrach, dylai dyfodiad polisi Cymraeg newydd y CDLlN hwyluso ymdrechion i gryfhau nifer y siaradwyr a defnyddwyr dyddiol y Gymraeg yn y brifddinas.

Bydd ymgynghori ac ymgysylltu ar y Cynllun Adneuo yn cydymffurfio â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor mewn ymgynghoriad â thîm Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor a gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Polisïau Strategol Perthnasol

- **Nod polisi PS12 Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy** yw annog gwella cymunedau drwy ddarparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg i ddarparu cymunedau cytbwys a chydlynus, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, trwy gefnogi adfywio cymunedau o amddifadedd yn y ddinas a sicrhau'r buddion ychwanegol y gall cymunedau newydd eu cynnig i gymunedau cyfagos neu o'u hamgylch.

- **Polisïau SP15 Sicrhau a Gwella Cyfleoedd i Dyfu'r Gymraeg a WL1 Y Gymraeg** sy'n nodi Caerdydd fel ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol a'i nod yw cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu, hyrwyddo a chryfhau buddiannau'r Gymraeg er mwyn sicrhau Caerdydd ddwyieithog. Mae'r polisi hefyd yn datgan lle bo'n briodol, y disgwylir i gynigion datblygu adnabod mesurau cadarnhaol sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg, sy'n cynyddu'r cyfleoedd i siarad yr iaith yn ddyddiol yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru yn achos effeithiau andwyol.

Mae Iaith Cyf/Burum wedi cynnal Asesiad Effaith cynhwysfawr o'r Cynllun Adneuo ar y Gymraeg, gan weithio mewn partneriaeth â Chaerdydd Ddwyieithog a thîm y CDLl, i asesu effaith y Cynllun Adneuo ar y Gymraeg.

Nodir canfyddiadau hyn ym Mhapur Cefndir Technegol Rhif 15 i'r Cynllun Adneuo ac fe'u cefnogir gan ymchwil a nodir ym Mhapur Cefndir Technegol y Gymraeg Rhif 11.

Mae'r broses hon wedi arwain at gynnwys Polisïau PS15 Sicrhau a Gwella Cyfleoedd i Dyfu'r Gymraeg a WL1 Y Gymraeg, sy'n nodi Caerdydd fel 'Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol' ac sy'n anelu at gefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu, hyrwyddo a chryfhau buddiannau'r Gymraeg i sicrhau Caerdydd ddwyieithog. Maen nhw'n datgan lle bo'n briodol, y disgwylir i gynigion datblygu nodi mesurau cadarnhaol sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg, sy'n cynyddu'r cyfleoedd i siarad yr iaith yn ddyddiol yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru yn achos effeithiau andwyol.

Bydd eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau hyn yn cael ei nodi yn y Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Gymraeg a fydd yn cael eu cynhyrchu ar ôl mabwysiadu'r CDLl Newydd.

Mae'n bwysig nodi, o ystyried y polisïau a amlygir uchod, y daw'r Asesiad Effaith llawn ar y Gymraeg a baratowyd gan yr ymgynghorwyr annibynnol i'r casgliad na ragwelir y bydd y Cynllun Adneuo yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar ben hynny, os mabwysiadir y cynllun a'r CCAau perthnasol dilynol, y bydd cydlyniant, cynaliadwyedd a llesiant cymunedau'r ddinas yn cael eu gwella ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

- Wrth ymgynghori ar y cynnig, a gafodd safbwyntiau eu hystyried, a'u ceisio, ar yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y byddai'r cynnig yn ei gael ar y Gymraeg ac o ran siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ehangach?

  A wnaeth yr ymgynghoriad geisio a rhoi ystyriaeth i safbwyntiau ar sut y gallai'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol?

  A wnaeth yr ymgynghoriad geisio a rhoi ystyriaeth i safbwyntiau ar sut y gallai'r cynnig beidio â chael effeithiau andwyol, neu leihau'r effeithiau andwyol?

  Dylech gynnwys copi o'r cwestiwn/cwestiynau ymgynghori perthnasol isod ynghyd â'ch tystiolaeth.

| |
|---|
| Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ar y polisïau yn y Cynllun Adneuo a chanfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn gynnar yn 2025. Gall yr adborth o hyn wedyn ddarparu tystiolaeth i gefnogi Archwilio'r cynllun gan Archwilydd annibynnol yn hydref 2025.<br><br>Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio ac yn ystyried safbwyntiau ar effeithiau positif, mwy positif, negyddol, dim effaith andwyol ac andwyol llai y cynllun/cynnig ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ehangach. |

- Os yw'r cynnig yn cynnwys dyfarnu grantiau, a roddwyd ystyriaeth i'r canllawiau a gyflwynwyd ym Mholisi Cyngor Caerdydd ar Ddyfarnu Grantiau yn unol â Safonau'r Gymraeg o ran a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a b) o ran **peidio** â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

  Gallwch nodi **Dd/B** os nad oedd dyfarnu grantiau'n berthnasol.

| |
|---|
| Dd/B |

- Os cafodd ymchwil ei gwneud neu ei chomisiynu i gynorthwyo gyda datblygu'r cynnig, a oedd yn ystyried a fyddai'n cael effaith **wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar a) y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

  A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai gael effaith gadarnhaol, neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol?

A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai beidio â chael effeithiau andwyol, neu leihau'r effeithiau andwyol?

Gallwch nodi **Dd/B** os na chynhaliwyd neu comisiynwyd unrhyw ymchwil.

Er mwyn cefnogi polisïau'r Gymraeg a'r Asesiad Effaith cynhwysfawr ar y Gymraeg a wnaed gan Iaith Cyf/Burum paratowyd Papur Technegol Cefndir Cymraeg. Mae hwn yn nodi ymchwil a thueddiadau'n ymwneud â defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas ac mae'n cynnwys gwaith penodol a gomisiynwyd gan y SYG yn ymwneud â thueddiadau mudo ar gyfer siaradwyr Cymraeg i'r ddinas.

**Deunyddiau a Gwasanaethau**

Yn ogystal â'r asesiad effaith i sicrhau bod y cynnig yn ateb gofynion Safonau'r Gymraeg, rhaid ystyried hefyd y deunyddiau a'r gwasanaethau ategol a allai fod eu hangen.

Cliciwch ar y canlynol i weld rhagor o wybodaeth am faterion penodol:

- Gohebiaeth - derbyn ac ateb (negeseuon e-bost, llythyrau, cyfathrebu ar-lein).
- Cyrsiau Hyfforddiant Addysg
- Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus - cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd grŵp, ymgynghori, cyfarfodydd unigol.
- Rhestr Wirio Caffael
- Cynhyrchu Ffurflenni
- Cynhyrchu Dogfennau Cyhoeddus - polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, hysbysiadau, codau ymarfer, papurau ymgynghori, trwyddedau, tystysgrifau, rheolau, llyfrynnau, taflenni, pamffledi neu gardiau, tocyn/talebau.
- Cyhoeddiadau Sain Cyhoeddus
- Negeseuon Cyhoeddus – electronig – fideo
- Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu
- Gwasanaethau Derbynfa
- Peiriannau Hunan-wasanaeth
- Arwyddion, Hysbysiadau a Deunydd Arddangos
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Ffôn - derbyn ac ateb galwadau.
- Gwefannau, Apiau a Gwasanaethau Ar-lein

| A yw'r holl ddeunyddiau a gwasanaethau ategol yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg? |
| --- |
| Ar gyfer yr ymgynghoriad sydd i ddod yn y flwyddyn newydd byddwn yn sicrhau bod yr holl ddogfennau / tudalennau gwe/negeseuon ymgynghori ar gyfryngau cymdeithasol/digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb ac ati yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. |

**Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd**

Gellir gweld y strategaeth hon yma ac mae dogfennau cyfarwyddyd ychwanegol wedi eu cynhyrchu i gefnogi ei gweithrediad:

- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Dethol a Chyfweld a'r Gymraeg.

| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i chi i gefnogi cyflawni'r cynnig yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg? |
| --- |
| Er nad oes staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y Tîm CDLl mae siaradwyr Cymraeg o fewn y Gwasanaeth Cynllunio ehangach sy'n gallu cefnogi ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud â pharatoi'r CDLlN a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safonau'r Gymraeg. Yn ogystal â'r digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb arfaethedig ynghlwm â'r ymgynghoriad sydd ar ddod byddwn yn sicrhau bod gennym gyfieithydd Cymraeg ar gael fel y gall pobl drafod y CDLlN yn y Gymraeg. |

**Y Camau Nesaf**

Wedi i Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gael ei gwblhau, rhaid i chi atodi'r ffurflen i'r Adroddiad Cabinet neu'r Adroddiad Penderfyniad Swyddog.

Rhaid hefyd e-bostio copi at Dîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog Materion Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Matters.

# D: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

| | Bydd | Na fydd |
| --- | --- | --- |

| | | |
|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn effeithio ar safle Ewropeaidd wedi'i ddynodi oherwydd ei ddiddordeb* cadwraeth natur, neu'n llywio datblygiad tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, neu'n effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd? | ☐ | ☐ |

** Dim ond dau safle Ewropeaidd a ddynodwyd oherwydd eu diddordeb cadwraeth natur sydd i'w cael o fewn ffiniau Caerdydd - Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd, ond byddwch yn ymwybodol os yw'ch prosiect yn effeithio ar ardal sy'n agos i awdurdod cyfagos.*

Os mai'r ateb yw 'Bydd', yna efallai y bydd angen cynnal ymarfer sgrinio i benderfynu a oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ai peidio.

Cysylltwch â'r Tîm Bioamrywiaeth a fydd yn eich tywys drwy'r broses.

# E: Asesiad Amgylcheddol Strategol

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A yw'r strategaeth, polisi neu weithgaredd yn gosod y fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol? | ☐ | ☐ |

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A yw'r strategaeth, polisi neu weithgaredd yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol (cadarnhaol neu negyddol)? | ☐ | ☐ |

Os ydych wedi ateb 'Bydd/Ydy' i'r ddau gwestiwn uchod, yna mae angen Sgriniad Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn.

Cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy a fydd yn eich tywys drwy'r broses.

# F: Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion? | ☐ | ☐ |

Os mai 'Bydd' yw'r ateb, yna efallai y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Cliciwch yma i ddarllen y canllawiau a dechrau'r broses Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data os oes angen.

Cysylltwch â’r Gwasanaeth Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth.

# G: Asesiad o’r Effaith ar Iechyd

Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn helpu i ddatblygu polisïau a phrosiectau sy'n ystyried iechyd meddwl, corfforol a chymdeithasol a llesiant poblogaeth wrth gynllunio a datblygu. Mae ystyried anghydraddoldebau iechyd a'u heffeithiau ar gymunedau lleol yn rhan hanfodol o unrhyw Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.

Bydd Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn dod yn ofyniad statudol i gyrff cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol yn y dyfodol. Nid yw'r amgylchiadau hyn wedi'u cyhoeddi eto gan Lywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch ag Uned Gymorth AEI Cymru.

Gwefan: Hafan - Uned Cefnogi Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd Cymru (phwwhocc.co.uk)

E-bost: WHIASU.PublicHealthWales@wales.nhs.uk